


OWEN, JOHN (1854 - 1926), esgob Tyddewi



Enw: John Owen
Dyddiad geni: 1854
Dyddiad marw: 1926
Priod: Amelia Owen (née Longstaff)
Rhiant: Ann Owen
Rhiant: Griffith Owen
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: esgob Tyddewi
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd yn yr Ysgubor Wen, Llanengan, Llŷn, 24 Awst 1854, mab Griffith Owen ac Ann ei wraig. Cafodd ei addysg yn ysgol ramadeg Botwnnog, ac yn 1872 enillodd ysgoloriaeth mewn mathemateg i Goleg Iesu, Rhydychen. Cafodd anrhydedd yn yr ail ddosbarth yn yr arholiad cyntaf yn y clasuron ac mewn mathemateg, a hefyd yn yr arholiad terfynol mewn mathemateg yn 1876 (B.A. 1876, M.A. 1879). Bu'n athro yn ysgol ramadeg Appleby am dair blynedd, a dychwelodd i Gymru yn 1879 yn athro Cymraeg a darlithydd yn y clasuron yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr-Pont-Steffan. Urddwyd ef yn ddiagon yr un flwyddyn gan yr **esgob Basil Jones**, ac yn offeiriad yn 1880. Bu am chwe mlynedd yn Llanbedr Pont Steffan cyn mynd i Lanymddyfri yn 1885 yn olynydd i **A. G. Edwards** fel warden y coleg. Pan godwyd hwnnw'n esgob Llanelwy yn 1889, penododd John Owen yn ddeon, ond ar ôl tair blynedd yn Llanelwy dychwelodd John Owen i Goleg Dewi Sant yn brifathro. Dyrchafwyd ef yn esgob Tyddewi yn 1897, a daliodd y swydd hyd ei farw yn Llundain 4 Tachwedd 1926. Yr oedd John Owen yn Gymro trwyadl o ran iaith a dyhead. Er ei fod yn ddadleuwr dan gamp, ni fennai hyn ddim nac ar ei barch i'w wrthwynebwy'r nac ar yr eiddynt hwythau iddo yntau. Cymerai diddordeb mawr yng nghyfundrefn addysg Cymru a'i datblygiad, ac un o'i weithredoedd cyhoeddus olaf (ar wahân i'w ddyletswyddau eglwysig) ydoedd llywyddu ar y pwyllgor adrannol a gyhoeddodd yn 1927 yr adroddiad ar *Y Gymraeg mewn Addysg a Bywyd*. Bu mewn cysylltiad agos hefyd â'r eisteddfod genedlaethol ac â Chyngor Cymreig Undeb Cynghair y Cenhedloedd. Priododd, 1882 Amelia, merch J. Longstaff, Appleby; bu iddynt bedwar mab a chwe merch a bu hi fyw ar ei ôl. Claddwyd ef yn Abergwili; y mae cerflun ohono yng Nghapel Mair yn eglwys gadeiriol Tyddewi.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1927

Who was who?, 1916-28

Oxford Dictionary of National Biography

gwybodaeth bersonol

Darllen Pellach

J. Austin Jenkins, W. T. Pike (ed.), *South Wales and Monmouthshire at the opening of the twentieth century: Contemporary biographies*(Brighton 1907), t.190

Erthygl Wicipedia: **John Owen**

Dolenni Ychwanegol

VIAF: **39150117**

Wikidata: **Q290367**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Ellis, T. I., (1953). OWEN, JOHN (1854 - 1926), esgob Tyddewi. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-OWEN-JOH-1854>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Noddi gan:
Llywodraeth Cymru
Sponsored by:
Welsh Government